CYNGOR CYMUNED PISTYLL
RHAGLEN CYFARFOD MISOL

Dyddiad	**11 Tachwedd 2026**
AMSER	**Cychwyn am 7yh**
LLEOLIAD	**Caffi Ceiri, Llithfaen LL53 6NH**
CADEIRYDD	**Wiliam Jones**

1.	**Croeso gan y Cadeirydd.**
2.	**Ymddiheuriadau:** **Dim ymddiheuriadau:**
3.	**Datgan diddordeb:**
4.	**Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion cyfarfod mis Hydref 2026:**
5.	**<u>Materion yn codi</u>** a) Maes Parcio Y Ganolfan Diweddariad - Maes Parcio y Ganolfan yn cau 13 Medi i cael amser glanhau gan Tim Tacluso (21-25 Medi) cyn I'r llinellau cael eu rhoi lawr. Cwyn fod trigolion nawr yn parcio ym mhobman oherwydd bod y gwaith rhoi y llinellau parcio ddim wedi dechrau ers bron i 2 wythnos +. b) HSBC Bancio ar lein Diweddariad – clerc i cael cod newydd i cael mynediad iddo. c) Lon Groes / Bwlch y Gwyn a Lon Rhosydd Diweddariad - Cynghorydd Jina Gwyrfai i cysylltu eto hefo Cyngor Gwynedd ynglŷn ag arwyddion ffordd i ddweud fod y ffordd yn anaddas i cerbydau HGV. Dau arwydd i cael eu gosod. Llythyr ymhynghori wedi anfon allan i trigolion Pistyll am eu barn i newid Bwlch y Gwynt yn nol i Lon Groes. d) Pistyll Diweddariad - Cynghorydd Jina Gwyrfai ac Cynghorwyr (Pistyll) wedi cyfarfod ag Cyngor Gwynedd ynglŷn ag safon yr lon o flaen Capel Pistyll ac twll yn y lon. Mae CG yn ymwybodol ers blynyddoedd am safon yr ffordd. Cryn dipyn o gordyfiant ar y lon. e) Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen. Diweddariad – Pwyllgor newydd wedi creu f) Diweddariad – Dwr Cymru dwr yn llifo ar Lon Plas (clerc wedi cysylltu ag Dwr Cymru ac maent yn dod 3ydd Tachwedd) g) Maes Parcio ben Nant h) Diweddariad – Bleddyn AHNE eisiau cyfarfod ac Cynghorwyd Cymuned a Nant Gwytheyrn
6.	**Gwefan CCP:**
7.	**Diweddariad Cyllidol gan Wiliam Jones (Cadeirydd):** Diweddaru Asedau: Cyfrif Elusen HSBC: £ Cyfrif wrth gefn HSBC: £2,800.00 Gwariant mis Tachwedd: Cyflog y Clerc £300.00 Torri Gwellt fynwent Pistyll £810.00
	Bioamrywiaeth ardal CCP: Angen trafod / diweddaru yr polisi isod yn cyfarfod mis Tachwedd **Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth - CCP** Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Cyngor Cymuned Pistyll. I gydymffurfio a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. **<u>Cynllun a Pholisi'r Cyngor</u>** 1. Ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i leihau effeithiau amgylcheddol a all ddeilio o'u gweithgareddau.

	2. Yn rheoli ei gweithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy. 3. I leihau cynhyrchiad gwastraff i'r hyn sydd yn ymarferol ac i ail ddefnyddio neu ail-gylchu ble mae'n briodol. 4. Lleihau gwastraff papur, drwy e-bostio copïau yn lle eu hargraffu. Argraffu dogfennau ddwy ochr pan mae angen copi papur. 5. I leihau, a ble mae'n bosib, i osgoi llygredd. 6. I fod yn effeithlon a chyfrifol yn amgylcheddol, drwy reoli defnydd o ddŵr ac ynni. 7. Cynnal ymweliad safle yn rheolaidd er mwyn nodi a gwirio arbedion gwastraff, fel tap y fynwent yn gollwng dŵr. 8. Rhoi gofyn i gontractwyr y Cyngor am bolisi amgylcheddol fel cymhwyster wrth ystyried gwaith cytundebol. 9. I godi ymwybyddiaeth aelodau'r Cyngor a'r contractwyr o effeithiau amgylcheddol yn deillio o weithgareddau a pherfformiad ac i hyrwyddo ymarfer da unigolion. 10. Lleihau defnydd o blastig. 11. Defnyddio deunydd a llafur lleol i leihau'r effaith amgylcheddol o deithio. 12. Plannu coeden newydd yn lle unrhyw goeden sy'n cwympo a'i thorri i lawr. 13. Plannu amrywiaeth o flodau sy'n denu peillwyr mewn mannau arbennig. 14. Ystyried bioamrywiaeth wrth drafod ceisiadau cynllunio a cheisiadau nawdd. 15. Creu ardaloedd bywyd gwyllt mewn mannau arbennig. 16. Cefnogi a chodi ymwybyddiaeth y gymuned i wirfoddoli i gynnal mannau gwyrdd a chynnal a chadw bioamrywiaeth. 17. Cydweithio gyda mudiadau e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod camau gweithredol yn cael eu dilyn mewn achosion fel, llifogydd, llygru afonydd a thipio anghyfreithlon. 18. Defnyddio plaladdwyr ond lle mae gwir angen ei reoli, fel rhywogaethau estron goresgynnol fel Canclwm Siapaneaidd.
9.	**Unrhyw Fater Arall /materion lleol:**
10.	**Pwyllgor Y Ganolfan:**
11.	**Cyfarfod Nesaf:** Cyfarfod nesaf 10fed o Dachwedd 2026 am 7yh yn y Ganolfan Llithfaen. ***Pwysig i chi anfon e-byst I'r clerc@ccp.cymru , neu tects ffon 07732 363586 hefo eich enw NEU gadael i aelod arall wybod os ni allwch fynychu'r cyfarfod er mwyn ymddiheuro o flaen llaw.***